# PWYLLGOR CRAFFU'R AMGYLCHEDD AC ADFYWIO

Cofnodion cyfarfod o bell a gynhaliwyd ar 11 Mawrth, 2025.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Gynghorydd S. Lloyd-Selby (Cadeirydd); Y Cynghorydd C. Iannucci-Williams (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr C.E.A. Champion, P. Drake, V.P. Driscoll, A.M. Ernest, M.J. Hooper, J.M. Norman, E. Penn, J. Protheroe a S.T. Wiliam.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr J. Aviet, B.E. Brooks (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Lefydd Cynaliadwy), L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau), G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles) ac E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd).

CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol".

COFNODION –

ARGYMHELLWYD –

(1) Cymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 14 Ionawr ac 11 Chwefror, 2025 fel cofnod cywir.

(2) Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 28 Ionawr, 2025 yn amodol ar y newidiadau a ganlyn:

- Ar dudalen 7 o gofnodion Cyfarfod Arbennig y Pwyllgor ar 28 Ionawr, 2025 dylid bod wedi cyfeirio at y meysydd parcio, yn ardaloedd gwledig, gorllewinol y Fro a'r cais am gadarnhad o ymgysylltiad ac ymgynghoriad cyhoeddus y Cyngor â'r cymunedau lleol a rhanddeiliaid perthnasol mewn perthynas â chynllun gwasanaethau'r rhain (Portabello a West Farm), fel yr addawyd, i'r Cynghorydd Protheroe ac nid i'r Cynghorydd Penn.
- Hefyd ar dudalen 7 o'r cofnodion, gan gyfeirio at gyfraniad yr Is-Gadeirydd a'r cynnig am ymchwil pellach, gydag arolwg diweddar o

ddefnyddwyr maes parcio Court Road a rhanddeiliaid eraill yn ofynnol, dylid bod wedi crybwyll ei hawgrym y dylai hyn fod dros gyfnod o 3 mis.

DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 3 2024/25 (CL) –

Nododd yr adroddiad perfformiad, a gyflwynwyd gan y Cyfarwyddwr Lleoedd (gyda chefnogaeth Phennaeth yr Amgylchedd a Thai), gynnydd y Cyngor yn Chwarter 3 (Ch3) (1 Ebrill i 31 Rhagfyr 2024) tuag at gyflawni ei ymrwymiadau yn y Cynllun Cyflawni Blynyddol (2024/25) fel sy'n cyd-fynd ag Amcanion Lles ei Gynllun Corfforaethol.

Rhannodd y Cyfarwyddwr Lleoedd gyflwyniad gyda'r Aelodau, wedi'i atodi yn Atodiad A yr adroddiad, a oedd yn cynnig crynodeb neu 'giplun' o'r cynnydd cyffredinol yn erbyn yr ymrwymiadau yng Nghynllun Cyflawni Blynyddol (CCB) y Cyngor ar gyfer 2024/25 fel sy’n cyd-fynd â 4 Amcan Lles y Cynllun Corfforaethol ac mewn perthynas â chylch gorchwyl y Pwyllgor Craffu Adfywio a’r Amgylchedd (roedd hyn yn dilyn prawf o gysyniad gan ddefnyddio Fframwaith Perfformiad Corfforaethol presennol y Cyngor o fesurau a chamau gweithredu i ddatblygu ei ddefnydd o Power BI i gefnogi’r gwaith o adrodd perfformiad). Roedd y ciplun yn cynnwys:

- Statysau COG cyffredinol a phenodol i bwyllgor, gan gynnwys camau gweithredu a mesurau Statysau COG yn ôl amcan lles;
- Yr hyn yr oedd y Cyngor wedi'i gyflawni (trosolwg penodol i bwyllgor);
- Adrodd eithriadau i'r Pwyllgor: camau gweithredu a mesurau;
- Meysydd i’w gwella; Gweithgarwch Cynllun Gwasanaeth;
- Meysydd datblygu a gweithgarwch sy'n dod i'r amlwg;
- Meysydd sy'n peri pryder sy’n dod i'r amlwg.

Roedd yr adroddiad yn gofyn i’r Aelodau Etholedig ystyried canlyniadau perfformiad Ch3 a'r camau adferol arfaethedig i fynd i'r afael â meysydd tanberfformio a nodwyd. Wedi ystyried, argymhellwyd y dylai'r Pwyllgor Craffu gyfeirio ei farn ac unrhyw argymhellion i'r Cabinet i'w hystyried.

Yn ystod y cyflwyniad, cododd sawl Aelod sylwadau ac ymholiadau, a oedd yn cynnwys y canlynol.

Gofynnodd y Cadeirydd am gyllid ar gyfer y Prosiect Trefi Hirdymor a'r Prosiect Ffyniant Bro ar gyfer y Barri, a gymeradwywyd, o ran unrhyw ddiweddariad ar amserlenni ar gyfer derbyn y cyllid hwnnw. Cyfeiriodd hefyd at gyllid Trawsnewid Trefi ar gyfer 2025/26 a 2026/27 a'r gwaith sylweddol a oedd yn cael ei wneud, a gofynnodd a oedd unrhyw ddiweddariadau ar y cynnydd a oedd yn cael ei wneud gyda hyn. Mewn ymateb, esboniwyd bod y Prosiect Trefi Hirdymor wedi'i ailenwi sef y 'Cynllun ar gyfer Cymdogaethau', gyda hysbysiad yn cael ei roi ar gyfer y prosiect

hwn yn ystod yr wythnos flaenorol, a dogfen ganllawiau newydd yn nodi'r broses o ran y gweithdrefnau newydd. Byddai hyn yn gofyn am adolygiad o'r bwrdd llywodraethu ar gyfer y prosiect a'r gweithdrefnau cysylltiedig, a fyddai'n ychwanegu at yr amserlen ar ei gyfer ac yn ei wthio yn ôl ychydig. Roedd rhywfaint o gyllid wedi'i gynnig ar gyfer cyfnod 2025/26, gyda'r nod o sefydlu'r bartneriaeth ar gyfer y fenter hon. Byddai hyn yn dechrau'n briodol yn 2026/27, gydag adroddiad i'w gynhyrchu ar gyfer y Cabinet a Chraffu, yn nodi'r amserlenni wedi'u diweddaru ar gyfer y prosiect. Y ffocws allweddol ar gyfer y prosiect fyddai cryfhau cymunedau. Yn yr un modd, roedd y prosiect Ffyniant Bro wedi'i ailenwi sef "Y Barri - Creu Tonnau", gyda gwaith yn parhau rhwng y Cyngor a'i bartneriaid er mwyn hwyluso cynllun newydd ynghylch cyflawni, wedi'i effeithio a'i ohirio oherwydd Etholiad Cyffredinol y DU, a oedd wedi rhwystro cyllid ar gyfer hyn. Roedd y Cyngor yn ceisio cael cytundeb gyda Llywodraeth y DU ar y ffrwd gyllid, gyda diwedd mis Mawrth 2028 yn amserlen newydd.

Dywedodd y Cynghorydd Protheroe ei bod yn falch o weld bod y Cyngor ar y trywydd iawn i fwrw ei darged ailgylchu o 70% ac i weld bod yr incwm a gynhyrchodd o'r gwastraff wedi'i wahanu a gasglwyd nid yn unig â gwerth, ond bod y Cyngor wedi cynyddu'r incwm a gafodd ohono. Roedd yn meddwl y byddai trigolion yn falch o wybod ei fod yn gweithio ond roedd yn meddwl tybed faint o arian yr oedd y Cyngor yn ei gynhyrchu fel incwm o'r gwastraff wedi'i ailgylchu wedi'i wahanu hwnnw. Esboniwyd bod y Cyngor wedi cymryd tua £1.4m o werthiannau ailgylchu y llynedd, ond roedd hyn yn amodol ar y marchnadoedd ailgylchu sy'n newid ac yn amrywio flwyddyn ar ôl blwyddyn ac roedd y gwasanaeth hwn yn gostus i'w ddarparu. Aeth yr arian a gynhyrchwyd o'r gwerthiannau yn ôl i'r gwasanaeth er mwyn helpu i'w redeg.

Gofynnodd y Cynghorydd Protheroe hefyd am y system garthffosiaeth amgen gynaliadwy ar gyfer trigolion yn Channel View, Marcroes a'r cyllid preifat posibl sydd ar gael i helpu gyda'r mater parhaus hwn. Yn ddiweddar, roedd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai wedi siarad â'r Cyngor Cymuned lleol am hyn a chost y cynllun disodli ar gyfer yr aelwydydd hynny yr effeithiwyd arnynt, a oedd yn ormodol. Trefnodd arolwg wedyn i gael gwybod pam fod system garthffosiaeth Croft John, a oedd yn debyg i un Marcroes, yn llawer rhatach i'w gwagio na'r ail. Yr amheuaeth oedd bod dŵr arall yn mynd i mewn i'r system. Roedd y gwaith arolygu bellach wedi'i gwblhau, a byddai'r Cyfarwyddwr yn cwrdd â'r peirianwyr a oedd yn ymwneud â'r gwaith hwn ar 19 Mawrth i fynd trwy'r manylion ar hyn. Yn dilyn hynny, byddai'n cwrdd â'r Aelodau Ward lleol a thrigolion i drafod opsiynau, gan gynnwys y posibilrwydd o gael gwaith trin unigol ar gyfer pob eiddo preswyl ym Marcroes neu edrych ar sut i leihau'r costau ar gyfer y trefniadau confensiynol sydd ar waith ar hyn o bryd. O ran cyllid preifat ar gyfer y system, nid oedd y Cyfarwyddwr yn ymwybodol o unrhyw gyllid o'r fath ar hyn o bryd, ond roedd croeso i ffynonellau cyllid o'r fath.

Gofynnodd y Cynghorydd Hooper am fwy o wybodaeth am y prosiect Y Barri - Creu Tonnau o ran y trafodaethau gyda Llywodraeth y DU, ac am y Cynllun ar gyfer Cymdogaethau, a beth oedd y newidiadau o ran hyn. Cyfeiriodd hefyd at yr oedi gyda'r prosiectau Ffyniant Bro / Y Barri - Creu Tonnau a Threfi Hirdymor / Cynllun ar gyfer Cymdogaethau, effaith negyddol chwyddiant ar y rhain a'r effaith ar eu cyllidebau a allai wedyn fod yn annigonol oherwydd hyn. Mewn ymateb, roedd y ddogfennaeth newydd ar gyfer Y Barri - Creu Tonnau yn cael ei hasesu ar hyn o bryd, ac roedd hynny a'r prosiect Cynllun ar gyfer Cymdogaethau hefyd wedi cael eu

heffeithio gan yr Etholiad Cyffredinol a'r newidiadau dilynol o ran y prosiectau hyn. Byddai'r rhain yn cymryd amser i'w treulio a'u gweithredu, ynghyd â ffactorau gweithredol, ond byddai diweddariadau pellach yn cael eu rhoi i'r Cabinet a Chraffu maes o law. Yn ogystal â phwysau chwyddiant, roedd ffactorau eraill wedi dod i'r amlwg a oedd wedi oedi cynnydd ar y prosiectau hyn, ond roedd pethau wedi cael eu symud ymlaen cyn gynted ag y gallent gan y Cyngor, gyda'r nod y byddai'r Cyngor yn gwneud ei orau i sicrhau y gellid cyflawni'r cynlluniau o fewn yr amlen gyllid. Roedd y trafodaethau parhaus gyda Llywodraeth y DU ar y prosiect Y Barri - Creu Tonnau yn canolbwyntio ar gyflawni a'r amserlenni ar gyfer hyn. Y disgwyliad oedd y byddai'r prosiect wedi'i gwblhau erbyn mis Mawrth 2028.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Hooper hefyd at wasanaeth Greenlinks ac at y ffaith nad oedd unrhyw sylwebaeth bellach wedi'i wneud yn yr adroddiad ynglŷn ag adrodd eithriadau ar hyn. Gofynnodd hefyd am fwy o fanylion am drafnidiaeth ysgol gynaliadwy. O ran Greenlinks, byddai'r mater a godwyd ynglŷn â'r diffyg sylwebaeth yn cael ei gymryd yn ôl a byddai mwy o fanylion yn cael eu rhoi yn y dyfodol. Roedd 'llawer i'w ddweud' am y gwasanaeth hwn, gydag adroddiad ar y mater hwn wedi mynd i'r Cabinet yn ddiweddar, a gyda theithiau trwy'r gwasanaeth hwn yn cynyddu'n gyson, er bod y rhain yn dal i fod yn is na'r lefelau cyn COVID-19. O ran trafnidiaeth ysgol, roedd gorwariant sylweddol yn y maes hwn a fyddai'n cael sylw, ac roedd y Cyngor (gan gynnwys grŵp penodol a sefydlwyd i edrych ar drafnidiaeth ysgol) yn gweithio i lunio ystod o fesurau gyda'r nod o wella trafnidiaeth ysgol a thrwy hynny leihau'r costau gweithredu a gwella cael plant lleol i'r ysgol a dibynadwyedd gwneud hynny. Byddai diweddariadau pellach yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet a'r Pwyllgor ar y maes hwn maes o law.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Hooper at Amcan 4, meysydd sy'n peri pryder sy'n dod i'r amlwg, a'r diffyg adnoddau yn fewnol i reoli nifer o gynlluniau mannau agored cyhoeddus. Cododd y materion ynglŷn â hyn yn Baruc ar y Glannau, cynllun mannau agored cyhoeddus a oedd yn cael ei reoli gan rywun heblaw'r Cyngor, a gofynnodd beth oedd y Cyngor yn ei wneud i gefnogi trigolion yno i gyflawni pethau ar y mannau agored hynny nad oeddent wedi'u gorffen o hyd a beth oedd yn ei wneud i roi pwysau ar y parti preifat dan sylw. Esboniodd y Cyfarwyddwr Lleoedd fod y rhan hon o'r adroddiad yn cyfeirio at ba adnoddau oedd gan y Cyngor i gyflawni'r nifer fawr o welliannau i fannau agored yr oedd yn ceisio eu cyflawni dros y 12 mis nesaf. Nid oedd gan y Cyngor y gweithlu na'r adnoddau i reoli'r rhain hefyd. Roedd y Glannau yn cael eu rheoli gan gwmni preifat ar ran y consortiwm cysylltiedig, ond parhaodd y Cyngor i gwrdd â'r consortiwm yn rheolaidd o ran cyflawni'r Glannau eu hunain a darparu rhai o'r mannau agored sy'n gysylltiedig â hynny. Roedd y Cyngor yn ymwybodol bod problemau parhaus sylweddol ynglŷn â chynnal a chadw'r mannau agored, ac ati, ac roedd y Cyngor wedi rhoi cyngor i'r grŵp trigolion lleol ar sut i fynd â'u pryderon ymlaen, ac roeddent yn gwneud hynny ar sail ffurfiol trwy gŵyn i'r cwmni sy'n rheoli'r mannau dan sylw. Roedd yn bwysig bod y Cyngor yn parhau i ymgysylltu â'r consortiwm i helpu i roi pwysau arno er mwyn datrys y materion hyn ar y cyd â'r camau cyfreithiol, ac ati, a gymerwyd gan y trigolion lleol.

O ran pwynt olaf y Cynghorydd Hooper ynglŷn ag adroddiad pellach ar y gwahaniaethau rhwng y prosiectau Ffyniant Bro / Y Barri - Creu Tonnau a Threfi Hirdymor / Cynllun ar gyfer Cymdogaethau, aeth y Cadeirydd i'r afael â hyn, a

nododd y gellid edrych ar hyn y tu allan i'r cyfarfod, yn weithredol, drwy gael ei gynnwys yn adroddiad y CCB ar gyfer Chwarter 4 ac, os yw'n briodol, drwy adroddiadau wedi'u rhaglennu ar wahân ar raglen waith y Pwyllgor, i'w rhannu â'r Pwyllgor maes o law.

Cododd y Cynghorydd Ernest y rhan o'r cyflwyniad a'r adroddiad yn ymwneud â gwaith y Cyngor gyda gweithredwyr Trafnidiaeth Teithwyr o dan Amcan 4 (meysydd datblygu a gweithgarwch sy'n dod i'r amlwg), gan ychwanegu ei bryderon am ansawdd gwasanaethau trên o Benarth i Gaerdydd ac mewn mannau eraill, a oedd wedi bod yn destun nifer o achosion o ganslo ac ail-lwybro. Gofynnodd beth allai'r Cyngor ei wneud am hyn, a pha gysylltiadau oedd ganddo gyda Trafnidiaeth Cymru. Esboniwyd bod Rheolwr Gweithredol y Cyngor ar gyfer Gwasanaethau Trafnidiaeth mewn cysylltiad rheolaidd â Trafnidiaeth Cymru ac yn ymgysylltu â nhw ar nifer o feysydd. Nid oedd y materion a godwyd gan y Cynghorydd yn rhan o swyddogaethau'r Cyngor, ond byddai'r rhain yn cael eu rhannu gyda Trafnidiaeth Cymru i edrych arnynt ar ran y Cyngor.

Gan nad oedd unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, ac ar ôl ystyried yr adroddiad, y Pwyllgor wedi hynny

ARGYMHELLWYD –

(1) Nodi canlyniadau perfformiad Ch3 a'r cynnydd tuag at gyflawni ymrwymiadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2024/25 sy'n cyd-fynd ag Amcanion Llesiant Cynllun Corfforaethol Cyngor Bro Morgannwg o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

(2) Y dylid nodi'r camau adferol sydd i'w cymryd i fynd i'r afael â meysydd o danberfformio ac i fynd i'r afael â'r heriau allweddol a nodwyd o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

<u>Rheswm dros yr argymhellion</u>

(1&2) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r atodiadau, yn ogystal â'r trafodaethau yn y cyfarfod ac yn dilyn ystyriaeth gan Aelodau'r Pwyllgor o'r adroddiad.

MATER OEDD Y CADEIRYDD YN PENDERFYNU YN FRYS –

PENDERFYNWYD – Y dylid ystyried y mater canlynol yr oedd y Cadeirydd wedi penderfynu ei fod yn fater brys am y rheswm a roddwyd o dan bennawd y cofnodion.

CYFLEOEDD HAMDDEN AR SAFLEOEDD GWASANAETH CEFN GWLAD (CYF) –

**<u>(Mater yr oedd y Cadeirydd wedi penderfynu ei fod yn fater brys oherwydd yr angen i sicrhau y gallai'r Pwyllgor ystyried yr adroddiad, a gellid cyfeirio unrhyw sylwadau / argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor yn ôl i'r Cabinet i'w hystyried, cyn unrhyw gytundeb terfynol gyda'r gweithredwyr hamdden perthnasol a fyddai'n ofynnol erbyn 1 Ebrill, 2025)</u>**

Roedd y Cabinet ar 6 Mawrth 2025 wedi cyfeirio'r adroddiad at y Pwyllgor Craffu i'w ystyried cyn unrhyw gytundeb terfynol gyda'r gweithredwyr Hamdden perthnasol.

Cyflwynwyd y cyfeiriad / adroddiad i'r Pwyllgor gan y Cyfarwyddwr Lleoedd, a'i ddiben oedd i'r Pwyllgor ystyried y cynllun peilot arfaethedig ar gyfer gweithgaredd hamdden ar y dŵr gyda gweithredwr trydydd parti ar y llyn dwyreiniol ym Mharc Gwledig Cosmeston, a fyddai'n ychwanegu at y gweithgareddau presennol yn y lleoliad ac yn eu hategu.  Roedd hyn cyn y trafodaethau a'r cytundeb terfynol gyda'r gweithredwyr Hamdden perthnasol a fyddai'n ofynnol erbyn 1 Ebrill 2025.

Crynhodd y Cyfarwyddwr Lleoedd bwyntiau allweddol y cyfeiriad / adroddiad fel a ganlyn:

- Cydnabuwyd pwysigrwydd mannau gwyrdd a glas ac yn arbennig y Parciau Gwledig yn Cosmeton a Phorthceri gan y Cyngor ac ystyriwyd bod sicrhau dyfodol hirdymor y mannau hyn yn hollbwysig, yn enwedig o ystyried y profiad a gafwyd yn ystod y pandemig diweddar ac i sicrhau y gellid gwarchod lleoedd o'r fath a'r natur a'r ecoleg bwysig a geir ynddynt ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.  Cydnabuwyd y ffordd newidiol yr oedd y mannau hyn yn cael eu defnyddio hefyd gyda ffocws ar gynnig gweithgareddau hamdden i ddefnyddwyr y parc yn ogystal â chynnal y mannau fel ardaloedd gwyrdd.
- Cydnabyddiaeth fel rhan o'r gwaith creu lleoedd presennol a oedd ar y gweill ym mhob un o'r pedair prif dref ym Mro Morgannwg ac yn fwy penodol ym Mhenarth, bod gweithgareddau hamdden yn ystod yr haf wedi'u nodi'n bwysig i ddefnyddwyr y parc fel rhan o'r ymarfer ymgynghori presennol.
- Roedd gweithredwr hamdden wedi cysylltu â'r Cyngor a hoffai archwilio'r cyfle i ddefnyddio rhan o'r llyn dwyreiniol ym Mharc Gwledig Cosmeston ar gyfer gweithgareddau dŵr o fis Mai 2025 hyd at fis Medi 2025 i brofi addasrwydd y lleoliad.
- Roedd yr adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth i drafod a chwblhau cytundeb trwydded am uchafswm o 20 wythnos, trwy fisoedd yr haf i dreialu'r cynnig ar gyfer gweithredu defnydd hamdden dŵr yn y llyn dwyreiniol ym mharc gwledig Cosmeston a allai ddarparu incwm i gefnogi'r gwaith o warchod a datblygu'r parciau gwledig yn y dyfodol gyda ffocws ar gynnal mannau gwyrdd a glas a chadwraeth natur.
- Gwnaed y cais hefyd i archwilio cyfleoedd ymhellach ar gyfer defnyddio adeiladau'r pentref canoloesol yn y dyfodol i gefnogi'n ariannol y gwaith o weithredu'r parciau gwledig yn barhaus.

Yn dilyn cyflwyno'r eitem frys, codwyd nifer o sylwadau ac ymholiadau yn y cyfarfod, a oedd yn cynnwys y canlynol.

Gofynnodd y Cynghorydd Norman pa ddarpariaethau a fyddai ar waith i amddiffyn bywyd gwyllt yn ystod y cynllun peilot, oherwydd y digonedd o rywogaethau adar sy'n nythu o amgylch yr ardal, gan gynnwys gwyddau ac elyrch.  Esboniwyd bod yr ardal wedi'i dynodi fel Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), gan gynnwys ei defnydd gan adar sy'n gaeafu.  Roedd swyddogion Gwasanaethau Cefn Gwlad ac Ecoleg y Cyngor wedi cadarnhau na ddylai gweithgareddau haf yn y lleoliad effeithio ar y bywyd gwyllt presennol yno.  Hefyd, byddai angen cymeradwyaeth Cyfoeth Naturiol Cymru ar y Cyngor cyn y gallai'r gweithgareddau

perthnasol ddigwydd.  Yn flaenorol, roedd cymeradwyaeth o'r fath wedi'i rhoi i weithredwyr yn ddarostyngedig i amodau penodol, h.y. golchi offer a ddefnyddir mewn gweithgareddau haf lleol (fel cychod) i sicrhau na ellid trosglwyddo unrhyw bioberyglon a rhywogaethau estron i'r llyn a chynefinoedd naturiol lleol.

Gofynnodd y Cadeirydd pa weithgareddau a fyddai'n cael eu cynnig gan y gweithredwr fel rhan o'r cynllun peilot arfaethedig.  Esboniwyd bod y rhain yn cynnwys cwrs rhwystrau ar y dŵr, gyda sleidiau, fframiau dringo ac offer pwmpiadwy wedi'u lleoli ar y llyn o fewn lleoliad penodol wedi’i wahanu.

Mynegodd y Cynghorydd Ernest ei bryderon am effaith y gweithgareddau arfaethedig ar Barc Gwledig Cosmeston yn ei gyfanrwydd, gan gynnwys cerddwyr a bywyd gwyllt lleol.  Gofynnodd hefyd am y ffioedd i'w codi yn y lleoliad o ganlyniad i'r cynllun peilot hwn a sut y byddai unrhyw 'wrthdaro' posibl rhwng gweithgareddau’r cynllun peilot a'i ddefnyddwyr, gyda cherddwyr, defnyddwyr eraill y parc a bywyd gwyllt lleol yn cael ei ddatrys.  O ran y ffioedd, esboniwyd mai gweithredwr y gweithgareddau hamdden dan sylw a fyddai’n penderfynu’r ffioedd i'w codi ac felly nid y Cyngor.  Roedd y Cyngor mewn trafodaethau gyda darpar weithredwr y gweithgareddau hamdden i weld a allai'r Cyngor dderbyn incwm o leoli'r gweithgareddau hamdden yn y llyn.  O ran gwarchod bywyd gwyllt, y bwriad oedd i'r ardal i’w defnyddio gael ei gwahanu a byddai hyn i ffwrdd o'r ardaloedd ecolegol pwysicaf.  Fel rhan o hyn, byddai nifer o amodau fel rhan o drwydded y gweithredwr i sicrhau nad oedd bywyd gwyllt, y cyhoedd ac ati yn yr ardal yn cael eu heffeithio'n andwyol.

Cododd y Cynghorydd Penn sawl sylw / cwestiwn ynglŷn â monitro ansawdd y dŵr yn y llyn yn ystod cyfnod y treial, yr angen i orfodi’n llym ddim mynediad i'r Llyn gorllewinol, annog darpar weithredwr y gweithgareddau hyn i recriwtio staff yn lleol, h.y. y Barri a Phenarth, yn ogystal â chyfeirio at y manylion yn yr adroddiad ynghylch gwaith Creu Lleoedd parhaus ym Mhenarth a oedd wedi nodi bod y rhai yr ymgynghorwyd â nhw fel rhan o'r broses yn teimlo bod diffyg cyfleoedd hamdden, yn enwedig yn ystod yr haf i drigolion iau a'r cyfle i fynd i'r afael â hyn gan y gweithredwr yn cynnig cyfraddau is / consesiynau i bobl ifanc.  Mewn ymateb i'r ymholiadau / sylwadau hyn, esboniwyd bod ansawdd y dŵr yn y lleoliad yn cael ei brofi'n rheolaidd.  O ran cyfyngiadau ar weithgareddau hamdden ar y llyn gorllewinol, roedd y rhain eisoes yn bodoli a byddent yn cael eu cynnal yn llym yn ystod y cynllun peilot dan sylw, oherwydd pwysigrwydd ecolegol y llyn gorllewinol.  Byddai gweithgareddau yn cael eu cynnal ar y llyn dwyreiniol mewn ardal benodol yn unig.  Byddai'r gweithredwr yn canolbwyntio ar recriwtio a hyfforddi staff yn lleol, a dyna hefyd oedd yr hyn a wnaeth pan oedd wedi bod yn gweithredu ym Mae Caerdydd, lle roedd wedi recriwtio staff o Benarth, ac ati, a byddai hyn yn cael ei gymhwyso i'r safle arfaethedig yn Cosmeston hefyd.  O ran consesiynau, roedd y gweithredwr wedi cynnig y rhain i bobl iau yn unigol a thrwy gyrff fel ysgolion er mwyn defnyddio ei gyfleusterau ar gyfraddau grŵp is, a'r disgwyliad oedd y byddai hyn yn parhau yn Cosmeston.

Gofynnodd y Cynghorydd Norman am oruchwylio'r gweithgareddau arfaethedig yn y llyn dwyreiniol, ac a fyddai'r rhain yn cael eu goruchwylio'n llawn.  Cwestiynodd hefyd a fyddai'r staff wedi’u recriwtio ar gyfer y gwaith hwn yn achubwyr bywyd cymwys.  Mewn ymateb, esboniwyd y byddai'r gweithgareddau a'r safle ei hun yn

cael eu monitro er diogelwch defnyddwyr ac i sicrhau nad oedd defnydd o'r cyfleusterau, y llyn na'r parc ar ôl oriau.  Byddai’r gweithwyr yn derbyn lefel uchel o hyfforddiant diogelwch, gan gynnwys sgiliau achub bywydau, a oedd yn ofynnol gan y gweithredwr fel rhan o'i ofynion yswiriant.

Roedd y Cynghorydd Protheroe yn teimlo bod hwn yn ddatblygiad cadarnhaol ond cwestiynodd hefyd faint y byddai'r gweithredwr posibl ar gyfer y cynllun peilot yn ei fuddsoddi.  Gofynnodd hefyd, ar ôl y cyfnod treialu cychwynnol, a fyddai rhyw fath o broses dendro agored i'r gweithredwr a darparwyr eraill sydd â diddordeb ar gyfer defnydd tymor hwy pe bai'r cynllun peilot yn llwyddiannus.  Yn ogystal, gofynnodd am gadarnhad ynghylch a oedd y diwydrwydd dyladwy perthnasol ynghylch diogelwch wedi'i wneud a beth fyddai'r camau nesaf yn dilyn y cynllun peilot hwn.  Mewn ymateb i'r sylwadau a'r ymholiadau hyn, esboniwyd mai prif bwrpas y cynllun peilot oedd gweld sut y byddai'r gweithgareddau hyn yn gweithio yn y lleoliad a beth fyddai'r effaith o ran manteision ac anfanteision dros dymor yr haf.  Y bwriad oedd y byddai gwerthusiad ac adroddiad llawn ar ôl cyfnod y cynllun peilot, h.y. ym mis Medi, er mwyn gweld a fyddai'n briodol agor ar gyfer tendr ar gyfer y gweithgareddau hyn yn Cosmeston am dymor arall, gyda'r cyfle i gael buddsoddiad a chontract tymor hwy ar waith, am o leiaf ddeng mlynedd, gyda chyfleusterau, gosodiadau a ffitiadau mwy parhaol yn eu lle.  O ran diwydrwydd dyladwy, roedd y gweithredwr arfaethedig ar gyfer y cynllun peilot eisoes yn rhedeg tri chyfleuster gweithgareddau hamdden, dau ohonynt ar lynnoedd a'r llall ym Mae Caerdydd, a oedd i gyd wedi bod yn llwyddiannus.  Fodd bynnag, gyda'r fenter ym Mae Caerdydd roedd yn awyddus i adleoli i Barc Gwledig Cosmeston oherwydd ansawdd y dŵr yn y Bae a oedd yn cyfyngu ar fynediad i weithgareddau i ddefnyddwyr.  Roedd hyn yn ei dro wedi rhoi cyfle i'r Cyngor asesu, profi a threialu effaith gweithgareddau o'r fath yn Cosmeston a phe bai’n briodol, byddai'r cyfle i wneud cais am y tendr tymor hwy yn cael ei gynnig i'r gweithredwr a darparwyr eraill.

Ailadroddodd y Cynghorydd Hooper yr angen am ddiwydrwydd dyladwy ar y cynnig hwn ac ar y gweithredwr, yn ogystal â'r angen i fynd i'r afael â phriodoldeb ac addasrwydd y lleoliad o ran cynnal gweithgareddau o'r fath yno.  Cyfeiriodd hefyd at y testun yn yr adroddiad am gyfleoedd cyllid ar gyfer y cynllun peilot hwn, ac a oedd y rhain yn sylweddol ac a oeddent wedi'u cynnwys yng nghyllideb y Cyngor a oedd wedi'i chymeradwyo’n ddiweddar, yn ogystal â'r rheswm dros yr adroddiad a'r cynnig yn dod i'r Pwyllgor nawr.   Esboniwyd y byddai'r cynllun peilot yn helpu i brofi priodoldeb y gweithgareddau hyn yn y parc, a nodwyd bod y gweithredwr arfaethedig ar gyfer y cynllun peilot wedi rhedeg y gweithgareddau hyn ar safleoedd tebyg yn llwyddiannus.  O ran cyfleoedd cyllid, byddai'r rhain yn cael eu heffeithio oherwydd y rhybudd byr am y darparwr yn symud i Cosmeston ac felly byddai cyllid o'r fath, buddion ariannol eraill a chyfleoedd incwm yn dod, ac yn fwy effeithiol a buddiol, yn y tymor hwy, pe bai'r cynllun peilot yn llwyddiannus, a byddai'r rhain yn helpu i gefnogi'r parc.

Ceisiodd y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Leoedd Cynaliadwy dawelu meddwl y Pwyllgor am y cynigion a'r cynllun peilot, gyda thrafodaethau'n cael eu cynnal gyda’r tîm parciau a'r gweithredwr i ddiogelu'r llynnoedd, y parc, defnyddwyr eraill ac ecoleg ehangach yr ardal fel rhan o'r cynnig hwn ac i leihau effaith y gweithgareddau a'r cyfleusterau ar y rhain.  Roedd hefyd yn bwysig, fodd bynnag, edrych ar fanteision ehangu mynediad a gweithgareddau ar gyfer hamdden, yn

enwedig i bobl ifanc, yn dilyn effaith pandemig COVID-19, mewn amgylchedd diogel a rheoledig gyda gweithredwr profedig i weithredu a goruchwylio'r gweithgareddau hyn. Yn dilyn y cynllun peilot 20 wythnos, byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet a Chraffu i asesu ac i alluogi trafod y cynllun peilot.

Gan nad oedd unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, ac ar ôl ystyried y cyfeiriad a'r adroddiad, y Pwyllgor wedi hynny

ARGYMHELLWYD – Ar ôl ystyried yr adroddiad, bod y Pwyllgor yn cyfeirio’r sylwadau canlynol yn ôl i’r Cabinet i’w hystyried cyn unrhyw gytundeb terfynol gyda’r gweithredwyr hamdden perthnasol:

- Fel rhan o'r cytundeb terfynol, ystyried peidio â gorfodi mynediad i lyn gorllewinol Parc Gwledig Cosmeston o ran gweithgareddau hamdden;
- Cymryd pob cam i warchod yr amrywiaeth ecolegol a bywyd gwyllt ym Mharc Gwledig Cosmeston;
- Croesawodd ac anogodd y Pwyllgor fwriad y gweithredwr hamdden arfaethedig i greu a recriwtio ar gyfer swyddi’n lleol fel rhan o’r cynllun peilot a’r cyfnod hwn;
- Gofynnodd y Pwyllgor am i fforddiadwyedd gael ei ystyried fel rhan allweddol o'r trafodaethau gyda'r darparwr a bod ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i gynnig consesiynau i ddefnyddwyr priodol y gweithgareddau hamdden arfaethedig;
- Ei bod yn bwysig cadw cydbwysedd rhwng y gweithgareddau hamdden arfaethedig a'r rhai sydd eisoes yn cael eu cyflawni a'u mwynhau gan ddefnyddwyr y parc, cymaint â phosibl;
- Dylai'r Cyngor sicrhau bod y diwydrwydd dyladwy priodol, goruchwyliaeth ddigonol, hyfforddiant a diogelwch yn cael eu cyflawni a'u darparu fel rhan o'r cytundeb gyda'r darparwr a'u gweithrediad o weithgareddau hamdden yn y lleoliad hwn yn ystod y peilot.

<u>Rheswm dros yr argymhelliad</u>

Sicrhau bod sylwadau’r Pwyllgor yn cael eu cyfeirio’n ôl at y Cabinet i’w hystyried cyn, ac fel rhan o, unrhyw gytundeb terfynol gyda’r gweithredwyr hamdden perthnasol y byddai ei angen erbyn 1 Ebrill, 2025.